Trawsgrifiad

5 ffaith nad oeddech chi'n eu gwybod am ryw ym Mhrydain'…wedi'u cyflwyno gan Natsal – Arolygon Cenedlaethol Prydain o Agweddau a Ffyrdd o Fyw Rhywiol.

Ffaith rhif 1…

'Arolwg rhyw' Natsal yw un o'r astudiaethau mwyaf a manylaf am ymddygiad rhywiol yn y byd ac mae dros 45,000 o bobl wedi cymryd rhan hyd yn hyn.

Hyd yn hyn, mae tri arolwg wedi cael eu cynnal oddeutu unwaith bob 10 mlynedd ers 1990, a bwriedir cynnal Natsal-4 yn 2022.

Ffaith rhif 2…

Cafodd oedran cydsyniad rhywiol ei osod gyntaf yn Lloegr yn 1275, a hynny'n ddim ond 12 oed! Fodd bynnag, am sawl blwyddyn roedd yr oedran cydsyniad rhywiol i ddynion gael rhyw â dynion yn hŷn na'r oedran i ddynion gael rhyw â menywod, a dim ond yn 2001 y newidiodd hyn. Heddiw, 16 oed yw'r oedran cydsynio i bawb.

Ffaith rhif 3…

Un newid diddorol dros y degawdau yw ein barn am odinebu

Wrth i amser fynd heibio, mae cyfran fwy o bobl yn ystyried bod cydberthnasau rhywiol â rhywun heblaw am eu priod yn anghywir.

Ffaith rhif 4…

Beth yw oedran y rhan fwyaf o bobl pan fyddant yn cael rhyw am y tro cyntaf yn eich barn chi?

Er bod straeon yn y cyfryngau yn dweud i'r gwrthwyneb o bosibl, nid yw'r rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain yn cael rhyw tan ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed...sy'n arwain at ein ffaith olaf heddiw

sŵn drwm

Ffaith rhif 5…

Pa mor aml y mae pobl yn cael rhyw yn eich barn chi? Mae pobl ym Mhrydain, rhwng 16 a 44 oed, yn cael rhyw dair gwaith y mis ar gyfartaledd...

Felly, a yw unrhyw un o'n 5 ffaith yn eich synnu neu'ch eich rhyfeddu?

I ddysgu mwy am Natsal a'i ganfyddiadau, ac i gymharu eich safbwyntiau â rhai pobl eraill, ewch draw i OpenLearn i gymryd rhan yn ein cwis rhyngweithiol 'Rhyw ac agweddau rhywiol ym Mhrydain'